

Bwletin




Cenhadol

Rhif: 71

Hydref 2015

Gair o'r Swyddfa



Syched!

Yn dilyn sylw gan chi Chwirydd, mae'r Bwletin wedi cael clawr newydd.

Mae'n debyg bod cael rhifyn glas bob tro yn creu cymhlethdod a'ch dymuniad oedd cael lliw neu lun gwahanol. Felly dyma ddylunio clawr byddai'n gweddu'r tymhorau. Wrth gyflwyno rhifyn yr Hydref, buan iawn bydd gwledd i'r llygad wrth deithio a cherdded o gwmpas pan fydd dail y coed yn newid eu lliw. *Coch, oren* ac ambell un yn aros yn fytholwyrdd, tri lliw sy'n fy atgoffa o oleuadau traffic. Rhaid STOPIO am eiliad, oedi a gorffwys, yn union fel y gwnaeth Iesu wrth deithio drwy Samaria ac *eisteddodd i lawr wrth y ffynnon*. (Ioan 4: 6)

Byddwch chi'n cael cyfle i orffwys? Ydych chi'n rhuthro o un

lle i'r llall – siopa, pwyllgorau, danfon y plant, ymweld, nôl y wyrion, cyfarfodydd, mae'n waith sychedig! Ond na phoenwch, mae Adran y Chwirydd wedi dewis adnod sy'n mynd i fodloni'r syched. Daw ein thema am y flwyddyn 2015-16 o Eseia 12 adnod 3: **'Mewn llawenydd fe dynnwch ddŵr o ffynhonnau iachawdwriaeth'**. Ein bwriad fel y llynedd i'w defnyddio'r thema ym mhob gweithgaredd Chwirydd ac eich annog chithau hefyd i wneud defnydd o'r deunydd sydd wedi cael ei baratoi. Trowch i dudalen 4 i ddarllen mwy am y thema newydd.

Stopiwch am eiliad, gorffwyswch ym mhresenoldeb Duw a gadewch Iddo ein bodloni wrth agosáu at ffynnon bywyd.

Eirian

EGLWYS UNEDIG LLANFAIR, PENRHYS

Diolch ENFAWR i Adran y Chwiorydd am eich haelioni a chefnogaeth i'r Genhadaeth yn Llanfair, Penrhys. Mae Llanfair yn galon y gymuned lle mae pobl yn profi croeso a chariad yng nghanol amgylchiadau anodd weithiau. Mae Llanfair yn rhoi mynegiant i'r ffaith nad yw Duw 'allan yna' yn gwylio, ar wahân, ond yn byw, anadlu ym mywydau pobl y mae Duw yn caru ac i Iesu ddangos tosturi.

Un o'n prosiectau yw caffir gymuned sydd ar agor tri diwrnod yr wythnos a dwy noson, mae'n chwarae rhan bwysig yn weinidogaeth Llanfair. Mae'n fan lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus i siarad am eu gofidiau, problemau a phryderon y gymuned. Prynodd Adran y Chwiorydd cwcer i'w ddefnyddio ar gyfer ein caffi sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Eleni, mae'r caffi nos wedi dod yn fwy o weithgaredd teulu gyda rhieni yn dod â'u plant i fwynhau a chymdeithasu gyda'u ffrindiau. Gall noson brysur olygu 80-90 o bobl yn gyfan gwbl – her yn wir i'r gweithwyr a gwirfoddolwyr!

Rydym yn mwynhau trefnu gweithgareddau amrywiol yn ystod caffi gyda'r nos gyda'n taflunydd (a gyfrannwyd hefyd gan Adran y Chwiorydd) sy'n cael ei ddefnyddio yn rheolaidd e.e. ar gyfer Karaoke, Ffilmiau a X ffactor. Mae'r taflunydd hefyd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer addoliad fore Llun pan ddaw'r plant o



Ysgol Gynradd Penrhys, ar gyfer Astudiaeth Feiblaidd Oedolion ac ar gyfer Ysgol Sul ac addoliad teuluol prynhawn Sul.

Mae gan Llanfair hefyd Siop gyda Dillad bron yn newydd, gwerthu amrywiaeth o ddillad, esgidiau, teganau a llyfrau am bris rhesymol iawn. Mae ein Clwb Gwaith Cartref yn cael ei gynnal dwy noson yr wythnos - 2 sesiwn cynradd ac 1 uwchradd. 12 mlynedd yn ôl sefydlodd ein gwirfoddolwyr o Malagasy Prosiect Crefft i'r Plant.

Ym mis Chwefror 2015, cynhaliodd Llanfair Ymgynghoriad i adolygu ei waith a chenhadaeth, daeth 50 o bobl o'r gymuned a'r eglwysi cefnogol. O ganlyniad, mae 6 grŵp wedi cael eu sefydlu, pob un â'i hargymhellion eu

hunain. Yn annhebygol bydd Llanfair yn cael ei weinidog ei hun yn y dyfodol agos. Mae'r enwadau ategol bob amser yno i helpu, ond mae Llanfair yn cyrraedd cyfnod pan mae angen iddo gymryd ar fwy a mwy o gyfrifoldeb dros ei fywyd ei hun. Un o'r rhain yw'r gofal neu magwraeth pobl y gymuned. Sut y gallwn fwynhau a rhannu llawenydd y bywyd Cristnogol? Ym Mhenrhys, mae gan yr eglwys cyfleoedd arbennig iawn oherwydd ei fod yn Eglwys Unedig Iesu Grist ar gyfer y gymuned gyfan. Yn ddiweddar, ymunodd 14 person 7 sesiwn o hyfforddiant ar gyfer y rhaglen

anogaeth sydd wedi ysgogi a chyfoethogi eu bywydau ysbrydol. Mae'r cyfranogwyr wedi cael eu rhannu yn 4 grŵp a byddant yn eu tro yn paratoi ac arwain Astudiaethau Beiblaidd wythnosol. Byddant hefyd yn arwain 6 gwasanaeth gwahanol yn ystod yr wythnos ar gyfer pobl o wahanol oeddrannau. Rydym yn ddiolchgar iawn i Dduw am y bennod newydd cyffrous ym mywyd Llanfair a'n cymuned yn Penrhys.

Rebecca Rialte a Sharon Rees

Thema am y flwyddyn 2015-16



Yn ystod y flwyddyn byddwch yn siwr o ddod yn gyfarwydd ar logo uchod wrth ddefnyddio deunydd Adran y Chwiorydd. Mae Sarah Morris wedi paratoi gwasanaeth arbennig ar y thema *'Mewn llawenydd fe dynnwch ddŵr o ffynhonnau iachawdwrfaeth'*. Os dymunwch gopïau cofiwch gysylltu gyda mi yn swyddfa'r Chwiorydd, manylion ar y cefn neu Sarah Morris yng Nghaerdydd ar 02920620424 neu anfon e-bost i meirionasarah@yahoo.co.uk Bydd y thema yn ein helpu wrth gyflwyno gwaith yr Arglwydd ac yn ein harwain trwy sawl gweithgaredd. Gweddiwn byddwch yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r adnod a'r gwasanaeth.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD:



Y Pwyllgor Cymraeg
[Rhyngengwadol]

Cynhelir Cynhadledd Undydd,
cyfle i baratoi ar gyfer

Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd.

Y gwasanaeth ar gyfer Mawrth 2016 wedi ei baratoi gan
Chwiorydd Cristnogol Ciwba, ar y thema:

“DERBYNIWCH BLANT. DERBYNIWCH FI”

Yn y Gogledd:

Capel Bethel, Stryd Fawr, Prestatyn,
Sir Ddinbych, LL19 9AP
Dydd Iau: Tachwedd 12fed:
10.00y.b - 3-00 y.p

Yn y De: Capel Heol Awst, Heol Awst,
Caerfyrddin, SA31 3AP
Dydd Mercher: Tachwedd 25ain:
10.00y.b - 1.00 y.p

Croeso i unrhyw un ddod i'r cyfarfodydd uchod, maent o fudd
mawr i'r rhai sy'n trefnu'r gwasanaethau neu i'r rhai fydd yn
annerch ym mis Mawrth.

Daw mwy o wybodaeth i'ch cynrychiolydd lleol
oddi wrth yr ysgrifennydd
Mrs Maureen Hughes, Llanrwst

Dosbarthwr y rhaglenni: Miriam Lewis,
6 Wynnstay Road, Hen Golwyn, Bae Colwyn, LL29 9DS
01492 515475

Mynd a dod...

Coleg y Bala - mae cyfnod Jack Newbould ar ei flwyddyn gap wedi dod i ben ers yr haf. Roedd yn berson hoffus iawn a thra roedd yma bu iddo roi 100% i'r gwaith. Cafodd gyfle i flasgu llawer agwedd o waith y Coleg, arwain cyrsiau penwythnos ar y cyd, ymweld ag ysgolion lleol, cyrsiau CIC Alffa a hyd yn oed chwarae gyda'r babanod yn ystod 'Ti a Fi'. Roedd ei gyfraniad yn werthfawr iawn a dymunwn bob bendith wrth iddo ddilyn cwrs ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion.

Diolchwn am ffyddlondeb yr Arglwydd gan ofalu bod pobl ifanc yn dewis dilyn cwrs hyfforddiant yng Ngholeg y Bala. Mae dau fyfyrwr newydd wedi cyrraedd y Coleg ers mis Medi yn ystod eu blwyddyn gap.

Un o Fangor ydi **Guto Gwyn Evans**, yn aelod yng Nghapel Penrallt. Yn gynharach eleni bu iddo gwblhau cwrs lefel A yn Ysgol Tryfan a dilyn cwrs ar y cyd yng Ngholeg Menai. Bydd y flwyddyn yma yn hanfodol i Guto, gan roi cyfle iddo weld beth sydd gan Dduw ar ei gyfer mewn addysg bellach neu gwasanaethu yng ngwaith yr Arglwydd. Gofynnwn am eich gweddiâu i'w helpu i wneud penderfyniadau pwysig am ei ddyfodol.

Mae **Carly Dittert** wedi teithio llawer mwy na Guto, mae ei chartref yn Texas, America. Yn 2013 derbyniodd Gradd mewn Addysg Uwchradd wedi arbenigo ym Mathemateg. Mae hi wedi treulio'r ddwy flynedd diwethaf yn dysgu mewn Ysgol Uwchradd ond derbyniodd alwad gan Dduw i ddod i Goleg y Bala. Fel Guto fydd y flwyddyn yma yn rhoi amser iddi baratoi at ei dyfodol, fydd yn cynnwys priodi ei dyweddi, William. Gweddïwn bydd ei hamser yn Bala yn rhoi arweiniad iddi a bydd cyfle iddi wasanaethu'r Arglwydd pan ddaw'r amser iddi ddychwelyd i Texas. Yn barod mae posib cynnal sgwrs gyda hi yn Gymraeg, anhygoel!



COFIO PARCH DR. GORDON H. ROBERTS

Ar Orffennaf 16eg, 2015 ymunodd cymuned *Ysbyty Dr H. Gordon Roberts*, ynghyd â chyfeillion yr ysbyty a chleifion, achlysur byr a difrifol er Anrhydedd i gofio a dathlu pen-blwydd sefydlydd yr ysbyty, Parch Dr Hugh Gordon Roberts yn 130 oed. Cafodd yr achlysur ei gadeirio gan Dr David Tariang, Uwch-arolygydd Meddygol.



Dr. David Tariang

Eglurodd Dr Tariang “Hwn ydi’r tro cyntaf i ni anrhydeddu pen-blwydd Dr Roberts yn hanes yr ysbyty, a bydd yn ddigwyddiad blynyddol o hyn ymlaen. MAE’N DDYLETSWYDD ARNOM”. Yn ystod y tair blynedd diwethaf maent hefyd wedi cofio pen-blwydd marwolaeth Dr Roberts a fu farw ar 20fed o Ragfyr 1961.

Yn dilyn canu’r emyn “da yw dy ffyddlondeb”, darllenwyd y Gair a gweddi gan TBn. K. T. Rynjah, Swyddog Gweinyddol. Rhoddodd Dr David Tariang hanes byr o fywyd Dr Roberts a oedd wedi gwneud y fath ymrwymiad i fynd i’r Bryniau fel Meddyg Cenhadol.

Parch W. C. Khongwir, Cadeirydd yr Ysbyty oedd y siaradwr gwadd a gosododd Garlant o flodau ar benddelw Dr Roberts.

Ychwanegodd Dr Tariang, “Roedd yn haeddu pob clod staff yr Ysbyty a’r gymuned yn ei

chyfarwydd. Rydym yn diolch i Dduw am ei fywyd, ac yr ydym yn diolch i Dduw am bobl Cymru sydd wedi codi'r dyn anhygoel yma ac sydd wedi gwneud cymaint o effaith ym mywydau llawer

Daeth y cyfarfod i ben gyda gair o weddi a'r fendith o dan arweiniad y Parch W. C. Khongwir.



Rhai o weithwyr yr Ysbyty wedi ymuno â'r gwasanaeth

PRYNWCH FEIBL I'CH YSGOL LEOL

Mae'n debyg mai'r Beibl yw'r llyfr gyda'r gwerthiant uchaf yn y byd ac mae ar gael yn 531 o ieithoedd, gan gynnwys, wrth gwrs, Cymraeg. Ym mis Tachwedd eleni cyhoeddir dau Feibl Cymraeg newydd o fersiwn newydd sbon sef, beibl.net Mae un ohonynt yn fersiwn llawn o'r Beibl a'r llall yn Feibl lliw i blant. Mae'r fersiwn hon yn defnyddio Cymraeg cyfoes fel bod pobl o bob oed yn cael darllen Gair Duw mewn iaith gyfarwydd, bob dydd.

Gyda llai a llai o blant a phobl ifanc yn mynychu capel ac Ysgol Sul, dyma gyfle gwych i ni gynnig Gair Duw iddynt. Beth am ystyried prynu copïau o'r Beiblau deniadol i'ch ysgolion lleol? Cewch archebu drwy Cyhoeddiadau'r Gair, a cyn Hydref 31ain maent ar gael am bris gostyngol. www.ysgolsul.com



Y GRONFA GROESO

Mae £3,000 wedi ei anfon o'r Gronfa Groeso i gais daeth gan Y Parchedig Catrin Roberts, Cyd-lynydd gwaith Cymorth Cristnogol. Yn ystod 2017 bydd apêl pum mlynedd y Cyfundeb yn casglu arian i Ynysoedd y Phillippines. Bwriad Cymorth Cristnogol ydi anfon cynrychiolwyr draw i ymweld â'r Ynysoedd i gasglu gwybodaeth. Rydym hefyd yn falch o roi Apêl Cymorth Cristnogol ar ein rhestr o Amcanion Arbennig gan sicrhau cyfraniad o Gasgliad y Chwiorydd i'r achos teilwng yma. Edrychwn ymlaen at glywed pwy fydd yn ymweld â'r ynysoedd a chlywed mwy am y prosiect yn ystod y paratoi.

ADRODDIADAU O'R SASIWN

SASIWN GENHADOL CYMRAEG Y GOGLEDD

Cynhaliwyd y Sasiwn eleni yng Nghapel Cymraeg Unedig Seilo Llandudno. Roedd cynulleidfada yn y ddau gyfarfod, estynnwyd croeso i bawb gan Lywydd cyfarfod y prynhawn Beryl Jones, Bae Colwyn. Cafwyd eitemau gan blant Ysgol Morfa Rhianedd.

Oherwydd gwaeledd y Parch Casi Jones, daeth Menna Machreth, Cydlynnydd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr i siarad yng nghyfarfod y prynhawn. Bu yn sôn am y pwysigrwydd o rannu ein ffydd gyda phawb, fel mae'r corff angen bwyd a diod, mae angen bwyd ysbrydol arnom ninnau trwy wrando ar beth mae'r Iesu'n ddweud wrthym. Terfynodd trwy weddi yn gofyn i Dduw ein defnyddio ni trwy ein ffydd.

Llywydd cyfarfod yr hwyr oedd Y Parch Eirlys Gruffudd, Yr Wyddgrug a chafwyd eitemau gan blant Ysgol Sul Seilo. Y siaradwraig oedd Delyth Wyn Davies, Chwilog, swyddog Dysgu a Datblygu gyda'r Eglwys Methodistiaid, ei phwnc oedd 'Discipleship', roedd wedi cael hi'n anodd ei gyfieithu efallai meithrin disgyblaeth, bu yn sôn am y gwahanol agweddau megis gwrando a gweithredu. Mae clwstwr bach ohonom yn y capeli ond mae pob un yn rhan o gymdeithas mwy megis gwaith, ysgol, cartref a'r gymdeithas o'n cwmpas.

Cyflwynodd y Parch Eirlys Gruffudd y diolchiadau i bawb a gymerodd rhan gan wneud Sasiwn llwyddiannus, yn sicr cawsom gras a bendith wrth fynychu'r cyfarfodydd eto eleni ac edrychwn ymlaen i'r Sasiwn flwyddyn nesaf yng Nghapel Jerwsalem, Bethesda.

Margaret Jones

SASIWN GENHADOL CHWIORYDD Y DE

Cynhaliwyd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De ar Fai 21ain yn Eglwys y Tabernacl, Aberteifi. Y llywyddion oedd Parch Llunos Gordon a Margaret Jones, Llywydd y Sasiwn.

Cafwyd anerchiad hollol ddiwyll gan Steffan Morris, bachgen ifanc sy'n paratoi at y Weinidogaeth. Dangoswyd fideo o'r Cwrs Ieuentid 'Dilyn Fi' yng Ngholeg y Bala; her Cristnogaeth i ieuentid heddiw a'r ymateb sydd i'r her honno trwy ddilyn Crist. Diolchwyd am y gefnogaeth ariannol y mae'r gwaith ieuentid yng Ngholeg y Bala yn ei dderbyn gan Adran y Chwiorydd. Yna croniclodd Steffan, trwy ddefnyddio hanes Jonah, ei hanes ysbrydol ef ei hun; ei fod wedi teimlo'r alwad yn ifanc ond yn ofni ymateb ei ffrindiau a'i gydnabod.

Ms Carol Hardy, Cydlynnydd y prosiect 'Estyn Llaw' 'Stafell Fyw, Caerdydd, oedd siaradwraig wadd yr hwyr. Mae 'Stafell Fyw yn Ganolfan ddyddiol ar gyfer pobl sy'n gaeth i alcohol, cyffuriau a mathau eraill o ddibyniaeth. Mae'n Ganolfan groesawgar, cyfeillgar a chysurus gyda'r pwyslais ar 'Beth allwn ni ei wneud i'ch helpu chi heddiw?' Cafwyd gan Carol groncl bersonol, gonest, a dirdynol o'i phrofiadau hi ei hunan a'i dibyniaeth ar alcohol, ac yn yr awr dywyllaf yn teimlo'r wefr a'r llawenydd o ddarganfod y gobaith newydd yn Nuw. Diolchwyd yn gynnes i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau ac am y wledd a baratowyd ar ein cyfer.

Nans Couch

SASIWN CENHADOL SAESNEG Y DE

Eleni, cynhaliwyd ein rali ar ddydd Mercher, Mai 13eg ar ddiwrnod bendigedig o braf yn Eglwys Ebeneser, Hwlfordd, Sir Benfro. Croesawyd y Parch Neil Kirkham i gyflwyno ei anerchiad gan ein Llywydd, Mrs Christine Hodgins. Roedd Neil wedi ymweld â Phalas Lambeth yn ddiweddar ar gyfer cynhadledd i ddathlu undod Cristnogol, ac fe esboniodd y pum pwynt a godwyd yn y cyfarfod hwnnw; Rydym yn datgan Crist Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr; Natur bod yn ddisgybl; Gwasanaeth i'r Arglwydd yn seiliedig ar gariad; Adeiladu gwerthoedd y deyrnas; a stiwardiaeth gyfrifol o'r greadigaeth.

Cyfrifoldeb yr Eglwys yw 'tyfu pobl', a chreu disgyblion a gaiff eu danfon allan fel cenhadon, nid yn unig dramor ond o fewn eu cymunedau eu hunain; i fwydo

ein pobl gyda'r efengyl, i weddio'n gorfforaethol ac mewn grwpiau bychain, i ofalu amdanynt, eu meithrin a'u caru gan eu hannog i dyfu mewn adnabyddiaeth o Iesu Grist; comisiwn mawr Iesu oedd EWCH. Dylid arfogi pob crediniwr i gyflwyno eu tystiolaeth a gallu rhannu stori'r Efengyl gan wybod ein bod wedi ein hachub rhag uffern ac wedi ein cymodi â'n Tad Nefol. Gorffennodd Neil ei anerchiad trwy ein herio i weddio'n daer dros bum person.

Yn dilyn canu ein hemyn olaf, daeth Christine â phethau i ben gyda'r fendith. Wedi gwasanaeth bendigedig, roedd te sylweddol wedi ei baratoi ar ein cyfer gan ferched yr eglwys. Mor braf oedd rhannu cyfeillach fel hyn ac edrychwn ymlaen at gyfarfod unwaith eto.

Gwenda E. Innes

SASIWN CENHADOL Y DWYRAIN (GOGLEDD) SAESNEG

Oherwydd y patrwm diweddar gyda llai o niferoedd yn mynychu'r Sasiynau Cenhadol, penderfynwyd y byddem yn rhoi cynnig ar weledigaeth newydd ar gyfer 2015. Y thema a ddewiswyd gennym ar gyfer yr achlysur oedd 'Dathlu Cenhadaeth'.

Y syniad oedd cynnal y digwyddiad ar ffurf cyfarfodydd 'clwstwr', gyda chwe cyfarfod clwstwr yn lle un cyfarfod sasiwn yn cael eu cynnal dros ddau ddiwrnod yn ein Cymdeithasfa. Roedd ein gweithwyr cenhadol yn gweithio gyda'i gilydd ar y ddau

ddiwrnod, gan ymweld â thri chyfarfod pob dydd er mwyn iddynt esbonio natur y gwaith y maent yn ymwneud ag o. Roedd hyn yn fodd o dynnu sylw at waith cenhadol yn lleol yn hytrach nag ar brosiectau cenhadaeth dramor. Cafwyd ymateb da iawn i'r sgyrsiau hyn ac roddent yn gyfle ar gyfer dathliad a chyfeillach gan gynnig mewnwelediad arbennig i'r gwaith sy'n mynd rhagddo gennym i'r rhai a ddaeth ynghyd.

Hoffem gyflwyno ein diolchiadau eto am y lletygarwch a



Capel Moreton, Wirral

ddarparwyd ym mhob lleoliad ac i'r timau arweiniodd pob cyfarfod clwstwr. Roedd yr adborth o'r digwyddiadau yn galonogol, gyda mwy o bobl wedi mynychu eleni na'r swm arferol mewn Sasiwn Genhadol. Mae gwersi i'w dysgu fodd bynnag: roedd yr amserlen afrealistig yn golygu ei bod hi'n dipyn o farathon i'r rhai hynny o'r timau cenhadaeth oedd yn teithio o fan i fan. Nodwyd hefyd efallai y dylid canolbwyntio ar anghenion cynulleidfaoedd lleol mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.

Ond arbrawf newydd llwyddiannus! Un y gallwn adeiladu arno yn 2016.

Glenys Fogg



Agor y Llyfr



Capel Trinity, Wrecsam

PROSIECT NEWYDD AR GYFER 2015-16

Mae gan Adran y Chwiorydd newyddion cyffroes am brosiect newydd ar gyfer ein tymor newydd o waith. Rhywbeth gallwn wneud gyda'n gilydd er budd plant bach anghenus. Mae'r prosiect **Dress a Girl Around the World** yn gynllun i greu ffrogiau a siorts allan o gas gobennydd neu unrhyw ddefnydd sbâr sydd gennych. Mae patrwm hawdd i'w ddilyn ar gael o'r swyddfa yma neu os ydych yn defnyddio'r we neu facebook mae cyfarwyddiadau syml i'w cael wrth ymweld â'r wefan



www.dressagirlaroundtheworld.co.uk



Os ydych ddim yn un am wnïo ac yn mwynhau gwau, mae patrwm hefyd i wau tedi bach del i roi ym mhoced y ffrog. Felly, beth am sefydlu grŵp gwnïo neu wau yn eich ardal chi, yn eich festri neu neuadd. Mae gwaith ar gyfer pawb, torri allan y patrwm, gwnïo, smwddio a bydd pawb angen paned a chacen wrth gwrs!

Ar y wefan mae'n egluro bod pobl o bob rhan o'r byd yn dod at ei gilydd am ddiwrnod neu fin nos gan eu bod *yn credu bod pob merch yn baeddu'r urddas o berchnogi o leiaf un ffrog.*



Y Gronfa Argyfwng...

Ar Ebrill 25ain 2015 gwynebodd trigolion Nepal amser anodd iawn o ganlyniad i ddaeargryn erchyll. Collwyd miloedd o fywydau, dinistriwyd llawer o adeiladau ac roedd 6.6 miliwn o bobl wedi eu heffeithio. Yn ystod Encil flynyddol yr Adran penderfynwyd anfon £4,000 at yr Apêl o'r Gronfa Argyfwng. Bu i'r arian fod o gymorth i anfon bwyd, dŵr, blancedi, pebyll, cymorth meddygol a nwyddau tŷ. Parhawn i gofio amdanynt yn ein gweddiâu.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi dilyn y newyddion a darllen yn ein papurau dyddiol am y miloedd o ffoaduriaid yn mudo i ddiogelwch. Mor drist ydi tystio dynion ifanc, merched a phlant yn rhedeg i dderbyn lloches mewn gwlad saff. Cymaint sydd wedi colli eu bywyd. Teuluoedd wedi eu gwahanu a phob un yn gadael cymaint ar ôl. Penderfynwyd yn ystod Pwyllgor Blynyddol Adran y Chwiorydd ar Fedi'r 9fed i anfon £3,000 o'r Gronfa Argyfwng i helpu'r sefyllfa ddyrys yma.

Daeth ceisiadau ychwanegol i law'r swyddogion a thrysoryddion y Sasiynau, derbyniodd y canlynol arian oedd yn weddill o'r Casgliad Arbennig eleni. Cwrs Ieuencid Coleg y Bala - £3,000 (y cais yma yn cael ei roi ar restr Amcanion am y tair blynedd nesaf); Banc Bwyd Port Talbot - £500 cais trwy law Bethan Davies, Gweithiwr Cenhadol, Henaduriaeth Morgannwg/Llundain a Chapel Christchurch, Croesoswallt - £100 cais trwy law Caroline Hodgins. Gweddiwn fendith ar waith y ceisiadau uchod.





Swyddfa Adran y Chwiorydd
Coleg y Bala, Y Bala, Gwynedd, LL23 7RY
☎ 01678 520 065
✉ ebcenhadaethbala@tiscali.co.uk